John Eliot 1604–1690

Apostol i frodorion America, gweinidog a chenhadwr

Ganwyd John Eliot yn Widford, Swydd Hertford, ac fe'i bedyddiwyd yn Eglwys St John the Baptist ar 5 Awst 1604. Yr oedd yn un o saith o blant i Bennett a Lettese ac yr oedd y teulu yn amaethwyr lled ffyniannus a oedd yn berchen tir yn Nyffryn Lea. Treuliodd John Eliot y rhan fwyaf o'i blentyndod yn Nazing, Essex, ac fe gafodd beth addysg. Bu'n llwyddiannus mewn arholiad mynediad i Goleg yr Iesu, Caergrawnt, ym 1619. Cafodd gymynrodd o £8 yn ewyllys ei dad, a fu farw ym 1621, a'i galluogodd i ennill gradd BA ym 1622. Ni wyddom nemor ddim beth a wnaeth yn y blynyddoedd dilynol ond erbyn 1629 roedd yn gweithio fel meistr cynorthwyol yn academi Biwritanaidd Thomas Hooker ger Chelmsford, Essex. Yn y cyfnod hwn o dan ddylanwad Hooker fe'i deffrowyd yn ysbrydol a daeth i werthfawrogi grym duwioldeb. Cafodd y gymuned Gristnogol leol ddylanwad trwm arno hefyd. Ym 1630 bu'n rhaid i Hooker ffoi i'r Iseldiroedd oherwydd erledigaeth gan William Laud, esgob Llundain. Caeodd Laud yr academi oherwydd ei bod yn gysylltiedig ag Anghydffurfiaeth. Penderfynodd Eliot ymfudo i New England yn yr Unol Daleithiau.

Wedi mordaith o ddeng wythnos ar y llong *Lyon* glaniodd Eliot yn Boston ar 3 Tachwedd 1631. Aeth yn syth i fod yn fugail dros dro ar y First Church yn Boston gan fod y gweinidog yn Lloegr. Yna fe aeth i fod yn fugail cynorthwyol gyda Thomas Weld yn Roxbury rhyw ddwy filltir i ffwrdd lle roedd rhai o'i frodyr a'i chwiorydd yn byw. Priododd Hanna Mumford, merch oedd yn aelod o'r gynulleidfa yn Roxbury. Symudasant i'r Massachusetts Bay Colony ac yno fe gafodd ddylanwad mawr gan mai dim ond newydd ei sefydlu yr oedd y drefedigaeth hon. Yn fuan daeth i wrthdrawiad gyda'r awdurdodau am wneud cytundeb gyda'r 'Indiaid' brodorol heb ymgynghori â hwy yn gyntaf. Ond am ryw reswm newidiodd ei safbwynt gan droi yn eithriadol o geidwadol. Ef oedd cyd-awdur y *Bay Psalm Book* ym 1640 gyda Richard Mather a Thomas Weld. Hwn oedd y llyfr cyntaf a argraffwyd erioed yn New England. Sefydlodd

ddwy ysgol, un yn Roxbury a'r llall yn Jamaica Plain. Er ei fod wedi ymwneud ag ystod eang o weithgareddau pwysig yn ystod ei oes fe'i cofir yn bennaf am ei waith cenhadol gyda'r trigolion brodorol yn nwyrain Massachusetts. Bu'n gynhyrchiol iawn yn cyhoeddi a chyfieithu llenyddiaeth Gristnogol i iaith yr Algonquian, ond rhaid cyfaddef mai yn araf iawn y datblygodd y gwaith hwn. Digwyddiad a ysgogodd Eliot oedd Rhyfel y Pequot (1636–7). Bu'r rhyfel hwn yn niweidiol iawn i nifer o lwythau brodorol, ac fe gollodd y brodorion ddarnau mawr o'u tiriogaeth. Yn sgil hyn anogwyd gweinidogion i ymestyn allan at y brodorion gyda'r Efengyl gan ddysgu iddynt sylfeini Cristnogaeth.

Ymddengys mai Eliot oedd un o'r rhai cyntaf i ymateb a dechreuodd ddarlithio i'r Indiaid yn Neponset ym 1646. Roedd yn siomedig iawn oherwydd yr ymateb negyddol a gafodd. Ymdrechodd eto yn ddiweddarach yn y flwyddyn trwy bregethu iddynt yn Nonantum a'r tro hwn fe gafodd ymateb llawer mwy cadarnhaol. Roedd ei ddwy bregeth gyntaf yn Saesneg yn cael eu cyfieithu ar y pryd ond yn fuan wedyn aeth ati i astudio'r iaith frodorol sef Algonquieg. O dipyn i beth daeth yn rhugl a chyhoeddodd dros ugain o gyfrolau yn yr iaith rhwng 1654 a 1688 yn cynnwys Genesis, Llyfr y Salmau, cyffes ffydd, Y Testament Newydd (1661) a'r 'Beibl Massachusett'. Hwn oedd y Beibl cyntaf i gael ei argraffu yng Ngogledd America. Sefydlodd hefyd bentrefi bychain i'r rhai oedd yn dod i gredu yn Iesu Grist lle roeddent yn rhydd oddi wrth erledigaeth gan frodorion eraill a phobl wyn a lle roedd digon o dir i'w cynnal. Erbyn 1674 gallai Eliot ddweud bod 1,100 o Indiaid yn byw yn y pentrefi hyn. Ond roedd y gwaith yn anodd a disgwyliadau Eliot yn uchel iawn. I bob pwrpas daeth y gwaith i ben gyda Rhyfel y Brenin Philip yn 1675–6, pan drechodd y Saeson Metacom a'r Cynghrair Wampanoag. Dyn ei oes ydoedd fel pawb ohonom ac, er bod ei fwriadau yn dda, yn ogystal â chyflwyno'r Efengyl Gristnogol cyflwynai hefyd ddiwylliant, disgwyliadau ac agweddau'r Piwritaniaid Ewropeaidd i'r brodorion. Wedi oes hir bu farw John Eliot ar 20 Mai 1690 ac fe'i claddwyd yn Roxbury.